PWYLLGOR PENSIYNAU

DYDD LLUN, 14 IONAWR 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Weaver(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Dilwar Ali, Howells a/ac Lay |

22 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

23 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

24 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2018 yn gofnod cywir gan y Pwyllgor a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

25 : POLISI BUDDSODDI NEWID YN YR HINSAWDD – I'W DDILYN

Nododd y Pwyllgor bod Atodiad 1 yr adroddiad hwn yn gyfrinachol yn unol â pharagraffau 14 a 21, Rhannau 4 a 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ac os yw Aelodau'n bwriadu trafod unrhyw wybodaeth a nodir yn yr Atodiad, byddai angen gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod.

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r Polisi Buddsoddi Newid yn yr Hinsawdd a nododd bod adroddiad pellach wedi'i gyflwyno i'r Panel Ymgynghorol ar Fuddsoddi ym mis Rhagfyr y llynedd, a nododd y Panel na ddylid ystyried mesuriadau dangosol o effaith amgylcheddol ar eu pen eu hunain, ond bod angen hefyd ystyried yr agweddau ansoddol.

Nododd yr Aelodau'r camau gweithredu o ran gweithio tuag at darged tymor hir ar gyfer lleihau pa mor agored yw'r Gronfa i risgiau amgylcheddol, gan bwysleisio hefyd pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw strategaethau buddsoddi'n unol â dyletswydd ymddiriedol y Cyngor.

Gofynnodd yr Aelodau i'r swyddogion i wneud gwaith pellach gan gynnwys datblygu cynllun ar gyfer newidiadau cyfnodol i strategaeth fuddsoddi'r Gronfa, a phroses monitro ac adolygu cadarn, fel bod modd adrodd ar unrhyw effeithiau andwyol ar berfformiad y Gronfa a bod modd gwneud unrhyw newidiadau i'r strategaeth lle bo angen.

PENDERFYNWYD:

(1) nodi canlyniad y gwaith a wnaethpwyd hyd yma gan gynnwys sylwadau'r Panel Ymgynghorol ar Fuddsoddi;
(2) mabwysiadu'r amcan a'r camau gweithredu a nodir ym Mharagraff 8; a

cytuno i rannu’r ddogfen Polisi drafft gyda’r Bwrdd Pensiynau Lleol a bod unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu cyfleu yn y drafft pellach i’w ystyried gan y Pwyllgor Pensiynau yn y cyfarfod nesaf.

26 : PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed o ran sefydlu trefniadau buddsoddi cyfun ar gyfer wyth cronfa'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru dan oruchwyliaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru. Nododd yr aelodau bod cynigion ar gyfer dwy is-gronfa – Active Equities y DU ac Active Equities Ewrop (heblaw am y DU) eu cymeradwyo gan JGC ym mis Medi, ac roedd cynigion wrthi’n cael eu paratoi ar gyfer yr is-gronfeydd pellach.

PENDERFYNWYD: I nodi'r datblygiadau diweddar o ran sefydlu Cronfa Buddsoddi Partneriaeth Pensiynau Cymru.

27 : HYFFORDDIANT I’R PWYLLGOR

Cafodd yr aelodau wybodaeth ddiweddar ynghylch y cynigion ar gyfer hyfforddiant 2019, a'r pynciau fyddai’n cael eu trafod. Cadarnhaodd yr aelodau eu cytundeb y dylai’r hyfforddiant ddigwydd cyn ac ar ôl cyfarfodydd penodol y pwyllgor.

PENDERFYNWYD: Nodi’r sesiynau hyfforddiant arfaethedig ar gyfer 2019.

28 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: I’r cyhoedd gael eu heithrio o’r cyfarfod er mwyn ystyried yr eitem ganlynol am fod gwybodaeth wedi ei eithrio ynddi fel y nodwyd ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12a Deddf Llywodraeth Leol 1972.

29 : PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU – IS-GRONFEYDD ARFAETHEDIG

PENDERFYNWYD: Nodi’r adroddiad a’r argymhellion.

30 : COFNODION Y PANEL YMGYNGHORI AR FUDDSODDI

PENDERFYNWYD: Nodi’r cofnodion.

31 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

32 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Pensiynau'n cael ei rannu maes o law.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.40 pm